# THOMAS, OLIVER (1598 - 1653?), clerigwr Piwritanaidd ac awdur

**Enw:** Oliver Thomas
**Dyddiad geni:** 1598
**Dyddiad marw:** 1653?
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr Piwritanaidd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ceir dau  r cyfoes o'r enw hwn yn raddedigion o Rydychen ac yn frodorion o Sir Drefaldwyn, ond ymddengys yn sicr mai'r 'bonheddwr' a gofrestrwyd yn Hart Hall (coleg Hertford yn awr) yn Nhachwedd 1616, yn 18 oed, ac a raddiodd yn B.A. (1620), ac M.A. (1628), yw'r g  r sydd a wnelom ni ag ef. Daliai'r g  r arall fywoliaethau yn Sir Benfro, ond â gororau gogledd ddwyreiniol Cymru y cysylltid gwrthrych yr ysgrif hon drwy gydol ei yrfa. Ceir yr ychydig a wyddys am ei yrfa yng nghyfrolau Thomas Richards, *Puritan Movement in Wales* a *Religious Developments in Wales*. Yn 1629 yr oedd yn Wrecsam, lle y clywodd Arise Evans ef yn pregethu. Yn 1647 ceir Oliver Thomas o Groesoswallt yn cynorthwyo Rowland Nevett yn swydd Salop, ac yn cael ei gyfrif yn addas i fod 'in Second Classis in Salop '. Yr oedd yn un o'r cymeradwywyr tan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru, Chwefror 1649/50, a rhywbryd cyn 14 Mai 1650 cafodd fywoliaeth Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Bu yno hyd 1653. Dywed Dr. Richards iddo farw, yn ôl pob tebyg, yn y flwyddyn honno, ond yn bendant rywbryd cyn Ebrill 1657. Dywed Anthony Wood mai yn Felton, swydd Salop, y bu farw

Ef oedd awdur *Catechism* (gydag Evan Roberts, 1640, a *Drych i dri math o bobl*, c. 1647 (ail argraffwyd gan Stephen Hughes yn y gyfrol gyfansawdd, *Tryssor i'r Cymru*, 1677). Gellir yn hyderus briodoli iddo hefyd, *Car–wr y Cymru*, a gyhoeddwyd yn ddienw yn 1630 (sawl argraffiad hyd at 1766), catecism o ddeuddeng tudalen i blant, a'r gyfrol fwy o lawer, *Car–wr y Cymru*, 1631 (ail argraffwyd gan Stephen Hughes yn ei *Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd*, 1677), a argraffwyd o'r newydd gan Brifysgol Cymru yn 1930. Priodolir y gyfrol hon iddo gan Anthony Wood (*Athenae*, arg. 1691, i, 860), ar sail tystiolaeth un o gyfoedion Thomas, sef Michael Roberts a fu farw 1679, gan Stephen Hughes yn *Tryssor* (1677), a chan Moses Williams yn ei restr o lyfrau printiedig Cymraeg (1717). Yr oedd rhyddiaith Gymraeg Oliver Thomas yn odidog.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20)

T. Richards, op. cit. (mynegion)

J. Ballinger, rhagymadrodd i arg. 1930 o *Car-wr y Cymru. Yn annog ei genedl annwyl a'i gyd-wladwyr er mwyn Crist a'u heneidiau i chwilio yr Ysgrythyrau yn ol gorchymyn Crist* (Llundain 1631), ond noder y feirniadaeth gan G. J. Williams yn *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, 1930, 251-2

*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, iv, 262-5


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Oliver Thomas

## Gweithiau

William Perkins, Vavasor Powell, Oliver Thomas, *Cyfarwydd-deb i'r anghyfarwydd, sef, Llyfr yn cynnwys, 1 Agoriad byrr ar Weddi'r Arglwydd: 2 Ymddidanion rhwng y Carwr a'r Cymro: 3 Ymddiddanion rhwng Crist a'r Publican, rhwng Crist a'r Pharisead, a rhwng Crist a'r Credadyn ammheus, sef canwyll Crist. 4 Amryw reolau duwiol* (Llundain 1677)

Oliver Thomas, Vavasor Powell, *Drych, y Cristion: neu Gadwedigol Ffydd, wedi ei Datgyddio mewn Ymddiddanion. I. Rhwng y Carwr a'r Cymro: Iw Gymell i Addoli Duw yn ei Dy. II. Rhwng Iesu a'r Publican. I Gyfarwyddo y Pechadur sy'n gweled ei Anheilyngdod. III. Rhwng Iesu a'r Pharisaeaid. I Argyhoeddi y Rhagrithiwr, sy'n pwyso ar waith ei hun. IV. Rhwng Iesu a'r Credadyn Ammheus. I Gysuro y Gwir Gristion* (Dublin 1766)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 49098084

Wikidata: Q19325030

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu